## RHAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

1.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y rheoliadau ailgylchu yn y gweithle[1] a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i eiddo annomestig wahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol yr un fath ag y mae aelwydydd yn ei wneud ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r gofynion gwahanu er mwyn cyflwyno'r ymrwymiad i weithleoedd gyflwyno cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) ar wahân i'w gasglu a'i ailgylchu o 6 Ebrill 2026 ymlaen. Dim ond sWEEE **heb ei werthu** y mae'n ofynnol i weithleoedd ei wahanu ar hyn o bryd.

### Hirdymor

1.2 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r newidiadau hyn yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r rheoliadau presennol a'r diwygiad arfaethedig yn cefnogi gweithleoedd i weithredu trwy sicrhau bod deunyddiau o ansawdd uchel yn gallu parhau i gael eu defnyddio, sy'n rhan allweddol o'r symudiad i economi gylchol ac yn gam pwysig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae cyflwyno sWEEE ar wahân yn creu'r cyfle i adnoddau hyd yn oed mwy gwerthfawr sy'n aml â phen draw iddynt gael eu hadfer a fyddai fel arall yn cael eu colli.

### Atal

1.3 Mae'r diwygiadau'n cynyddu ansawdd a chyfanswm ailgylchu deunyddiau gwastraff a gynhyrchir mewn adeiladau annomestig yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, maent yn cefnogi ymrwymiadau Cymru i gyrraedd targedau Cymru ddiwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050.

1.4 Trwy weithredu'r diwygiadau hyn rydym yn:

- rhoi cyflenwad mwy sicr o adnoddau i'n sector gweithgynhyrchu;
- cyflymu'r cynnydd tuag at economi gylchol i Gymru;
- lleihau'r ddibyniaeth ar gloddio deunyddiau crai newydd sbon, un o achosion sylfaenol yr argyfwng bioamrywiaeth byd-eang;
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;

[1] Dyma'r enw cyfunol a roddir i'r tri rheoliad a roddodd effaith i gyfres o ddiwygiadau i wahanu, casglu a gwaredu gwastraff o eiddo annomestig. Yr rheoliadau perthnasol yw: Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.

- cynnal a chreu swyddi newydd a buddsoddiad yn yr economi werdd.

**Integreiddio**

1.5 Mae'r diwygiadau hyn yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn cyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol ac ymwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

1.6 Mae cychwyn y rheoliadau hyn wedi gwneud y systemau ar gyfer ailgylchu yn y cartref a'r gweithle yn fwy cydnaws, gan wella cysondeb a lleihau dryswch ymhlith dinasyddion.

**Cydweithio a Chynnwys**

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth ar y polisi gwahanu yn y ffynhonnell ers degawd a mwy ac wedi parhau i ymgysylltu ac ymgynghori'n ffurfiol â rhanddeiliaid gan gynnwys gweithleoedd, y sector gwastraff a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddatblygu'r polisi a'r rheoliadau[2]. Mae arolygon yn dangos cefnogaeth eang i'r diwygiadau yn fwy cyffredinol, gan gynnwys ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn sefydliadau a gaiff eu heffeithio gan y rheoliadau hyn[3]. Roedd ein hymgynghoriad cyhoeddus diweddaraf yn 2025 yn gofyn am farn ar y newidiadau i'r Cod sy'n angenrheidiol i adlewyrchu'r gofyniad i eiddo annomestig gyflwyno cyfarpar trydan bach ar wahân erbyn mis Ebrill 2026 a mân ddiweddariadau eraill i'r Cod Ymarfer i wella eglurder a chysondeb[4]. Cafwyd 41 o ymatebion. Roedd y mwyafrif yn cefnogi pob diwygiad arfaethedig i'r Cod arfaethedig yn yr ymgynghoriad.

---

[2] Mae'r ymgynghoriadau perthnasol yn cynnwys: Strategaeth economi gylchol | LLYW.CYMRU ( 2019) ; Cynyddu ailgylchu gan fusnesau | LLYW.CYMRU (2019); Ymgynghoriad ar gasglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU (2023); Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru (cau Chwefror 2023) [llyw.cymru] (2023).

[3] Agweddau'r cyhoedd ar y newidiadau i ailgylchu yn y gweithle a'r gwaharddiad ar blastigau untro | LLYW.CYMRU

[4] Ymgynghoriad ar Gasglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru (Diwygiedig) [llyw.cymru] (2025)

**Effaith**

1.8 Yn ei asesiad o'r Glasbrint Casgliadau, gwelodd Eunomia[5] fod dal deunyddiau o ansawdd uchel drwy gasglu gwastraff ar wahân yn debygol o helpu i gadw deunyddiau o fewn economïau Cymru a'r DU – gan arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y diwygiadau hyn hefyd:

- Yn creu cyfleoedd ar gyfer swyddi yn y sector rheoli gwastraff.
- Yn casglu deunydd o ansawdd uchel yn fwy effeithiol, gyda'r deunydd hwnnw'n gallu mynd yn ôl i economi Cymru i wella gwytnwch ein cadwyni cyflenwi domestig a lleihau dibyniaeth ar gloddio deunyddiau crai.
- Bydd y cyfleoedd swyddi a gynhyrchir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn creu manteision cymdeithasol ac iechyd ehangach. Er enghraifft, cyflogaeth yn gyffredinol yw'r ffordd bwysicaf o gael adnoddau economaidd digonol, sy'n hanfodol ar gyfer lles materol a chymryd rhan lawn yn y gymdeithas sydd ohoni lle mae gwaith yn diwallu anghenion seicogymdeithasol pwysig mewn cymdeithasau lle mae cyflogaeth yn norm ac yn un o'r prif ysgogwyr graddiannau cymdeithasol mewn iechyd.

**Costau ac Arbedion**

1.9 Y gofyniad sWEEE yw'r cam diweddaraf o'n diwygiadau ailgylchu gweithle llwyddiannus sydd gyda'i gilydd wedi'u modelu i ddarparu budd net cronnol o £194.6 miliwn o werth presennol net (NPV) dros 10 mlynedd o'r pecyn cyfunol o fesurau[6]. Disgwylir i gam sWEEE y diwygiadau hyn leihau CO2e 7,437 tunnell, lleihau NO2 6 tunnell ac arwain at ailgylchu 37,757 tunnell yn fwy dros 10 mlynedd. Bydd y polisi hefyd yn dod â manteision ehangach sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â gostyngiad disgwyliedig yn nifer y tanau gwastraff a achosir gan fatris ïonau lithiwm sydd mewn llawer o gyfarpar trydanol bach a allai arwain at arbedion ychwanegol eithaf sylweddol.

1.10 Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau y gallwn sicrhau cyflenwad cadarn o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu o ansawdd uchel, y gellir eu dychwelyd i'r economi. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i ddatgloi manteision yr economi gylchol a chefnogi gwytnwch busnesau trwy'r trawsnewid i economi wedi'i datgarboneiddio.

---

5 Joe Papineschi, Emma Tilbrook, a Luke Emery, Review of the Welsh Government Collections Blueprint, Eunomia, 2016, https://www.eunomia.co.uk/reports-tools/review-of-the-welsh-government-collections-blueprint/.

6 Effaith reoleiddiol opsiynau i gynyddu ailgylchu yn y gweithle (2024).

## Mecanwaith

1.11 Y mecanwaith yw is-ddeddfwriaeth – yn benodol 3 offeryn statudol[7]. Bwriedir gweithredu'r gofyniad sWEEE drwy reoliadau a fydd yn diwygio Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

[7] Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.

## ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

8.1.1 Trwy gydol ein proses ymgysylltu helaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, llawer ohonynt yn grwpiau â buddiant ac yn gynrychiolwyr pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; siaradwyr Cymraeg; plant a phobl ifanc; a phobl eraill y bydd y diwygiadau hyn yn effeithio arnynt.

8.1.2 Mae ein hymgysylltu hyd yma yn cynnwys mwy na degawd o ymgynghori ac ymgysylltu.

8.1.3 Mae cydweithio â rhanddeiliaid wedi rhoi cyfle iddynt ddarparu mewnbwn pwysig ar gamau cyflwyno ffrydiau gwastraff penodol gan gynnwys sWEEE. Mae'r ymgyngoriadau perthnasol yn cynnwys:

- **2009 – ymgynghoriad *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.**
- **2013-14 - *Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd***
- **2019-2020 – Ymgynghoriad ar *Mwy nag Ailgylchu, Strategaeth yr Economi Gylchol i Gymru***.
- **2019 - Ymgynghoriad ar *Cynyddu Ailgylchu gan Fusnesau yng Nghymru***
- **2022-23 - Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer drafft a chynigion ar gyfer Gorfodi Ailgylchu yn y Gweithle**.
- **2025 - Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer:** ein hymgynghoriad diweddaraf oedd ymgynghoriad 12 wythnos (Gorffennaf – Hydref 2025) ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod i adlewyrchu'r ymrwymiad yr ymgynghorwyd yn flaenorol i gyflwyno'r gofyniad i wahanu sWEEE (ac nid dim ond sWEEE heb ei werthu) o eiddo annomestig. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cefnogi pob diwygiad arfaethedig i'r cod a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

8.2.1 Bydd y diwygiadau hyn yn cynyddu ansawdd a chyfanswm ailgylchu o eiddo annomestig yng Nghymru. Wrth wneud hynny, bydd hyn yn gam allweddol ymlaen yn ymrwymiad Cymru i gyrraedd targed Cymru ddiwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, mae symud i economi gylchol – lle mae deunyddiau'n cael eu cadw mewn defnydd gwastraff yn cael ei osgoi– yn hanfodol ac yn elfen bwysig o *Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang*. Yn unol ag

amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru[8], mae'r diwygiadau yn cefnogi'n uniongyrchol ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi wyrddach yn seiliedig ar ddiwydiannau'r dyfodol ac yn ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

8.2.2 Mae economi gylchol yn lleihau ein hallyriadau ac yn gwella gwytnwch y gadwyn gyflenwi. Mae hyn o fudd i'r economi a'r amgylchedd wrth i ddeunyddiau sy'n cael eu casglu gael eu bwydo yn ôl i'r economi, gan felly leihau ein dibyniaeth ar ddeunyddiau crai sy'n cael eu cloddio dramor. Mae hyn yn ei dro yn lleihau'r difrod cysylltiedig i natur, bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn fyd-eang a achosir gan waith cloddio a phrosesu'r deunyddiau crai.

8.2.3 Ar gyfer busnesau a sefydliadau unigol, mae'r diwygiadau yn cefnogi'r symud i ffwrdd o sefyllfa lle mae gwaredu gwastraff yn gost sylweddol, i un lle mae'r deunydd gwastraff hwnnw'n cael ei gasglu'n effeithiol a'i ddychwelyd i'n heconomi fel nwyddau pwysig. Law yn llaw â defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, bydd hyn hefyd yn helpu i gefnogi cynhyrchiant busnesau a'u gallu i gystadlu mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio. Mae'r diwygiadau hyn yn dod â manteision drwy greu arbedion cyffredinol i economi Cymru, sicrhau prisiau uwch am ddeunyddiau o ansawdd uchel sy'n cael eu casglu, a chreu cyfleoedd i sicrhau mwy o werth economaidd ychwanegol yng Nghymru a chreu swyddi ychwanegol yn yr economi gylchol – sy'n hanfodol ar gyfer *Cymru gydnerth a mwy llewyrchus*. Mae'r diwygiadau hefyd yn creu cysondeb rhwng ymddygiadau ailgylchu aelwydydd a gweithleoedd, gan wella cysondeb y system i bob defnyddiwr.

8.2.4 Drwy fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, mae'r diwygiadau hyn yn dod â manteision amgylcheddol, economaidd ac iechyd pwysig i'r genedl (Cymru iachach). Bydd pobl yn elwa ar lai o allyriadau carbon ac mae ailgylchu wedi dod yn destun balchder cenedlaethol sy'n creu cyfleoedd i uno dinasyddion (Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog) a thrwy hynny yn creu cyfleoedd i'r Gymraeg.

8.2.5 Ar gyfer dinasyddion unigol, mae'r rheoliadau'n darparu:

- llai o ddryswch a mwy o gysondeb o ran beth a sut y maent yn ailgylchu. Mewn perthynas ag ailgylchu yn y gweithle, bydd hyn yr un fath â sut y maent yn ailgylchu adref i raddau helaeth;

[8] "Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant", *Llywodraeth Cymru*, 2021, https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant-html.

- mwy o ymdeimlad o hunanfoddhad / galluogedd am eu hymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd;
- mwy o empathi â'u cyflogwyr sy'n gwneud eu rhan.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

8.3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl weithredol yn hyrwyddo bioamrywiaeth, hawliau plant, cydraddoldeb a'r Gymraeg gyda'r diwygiadau hyn.

8.3.2 Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £1 biliwn mewn ailgylchu gwastraff aelwydydd. Mae hynny wedi trawsnewid Cymru o genedl a arferai ailgylchu llai na 5% o'i gwastraff trefol i un a ailgylchodd mwy na 66.5% yn 2023-24. Mae hyn eisoes yn arbed tua 400,000 tunnell o allyriadau $CO_2$ y flwyddyn. Mae'r rheoliadau hyn yn hyrwyddo'r newid i economi gylchol, gan leihau'r broses o gloddio am adnoddau trwy gasglu deunyddiau a'u bwydo yn ôl i'r economi, sy'n helpu i gyflymu datgarboneiddio a lleihau colli bioamrywiaeth. Mae gweithredu parhaus yn y maes hwn yn hanfodol i'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'n cefnogi'r amcan o'i ymgorffori ym mhopeth a wnawn, tra'n helpu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni gamu ymlaen tuag at dargedau Cymru ddiwastraff a sero net, gan greu Cymru sy'n fwy gwyrdd a llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

8.3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau i weithredu arferion gorau cynaliadwy drwy Busnes Cymru, Bwyd a Diod Cymru, WRAP Cymru a'r Bartneriaeth Bioamrywiaeth, ac mae wedi datblygu canllawiau sector-benodol ar weithredu'r diwygiadau hyn, gan gynnwys y gofyniad sWEEE gyda WRAP. Mae amrywiaeth o adnoddau cymorth ar gael i gefnogi busnesau a sefydliadau, megis astudiaethau achos arferion gorau, canllawiau ac arwyddion ac adnoddau y gellir eu lawrlwytho. Er mwyn lliniaru'r cynnydd posibl yn y defnydd o gerbydau disel yn y sector gwastraff, mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo gyda'r gwaith o drosglwyddo i gerbydau gwyrddach gyda grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer cerbydau

casglu trydan a seilwaith gwefru.[9] Ar ben hynny, mae effaith negyddol unrhyw gynnydd mewn teithiau a/neu ehangu cyfleusterau rheoli gwastraff presennol neu gyfleusterau newydd wedi'u lliniaru gan yr arbediad mewn allyriadau o amnewid deunydd, gyda'r deunydd wedi'i ailgylchu sy'n cael ei gasglu yn cael ei ddefnyddio yn lle deunyddiau crai.

8.3.4 Nid oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r sector cyhoeddus a bydd gweithredu'r rheoliadau diwygiedig hefyd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae fersiynau print mawr, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais. Mae'r holl ddeddfwriaeth, gohebiaeth a chyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r diwygiadau yn cyfrannu tuag at Gymru fwy cyfartal gan eu bod yn arwain at gamau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd y disgwylir iddo daro'r cymunedau mwyaf agored i niwed galetaf. Bydd hefyd yn creu amgylchedd glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy gyda swyddi cysylltiedig a buddsoddiad yn yr economi gylchol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i leihau unrhyw effaith ar fusnesau micro a bach sydd â llai nag 20 o weithwyr, sef yr unig fusnesau y rhagwelir y byddant yn wynebu cynnydd bach iawn mewn costau,[10],[11] trwy, er enghraifft, darparu offer a chyngor ar sut i leihau gwastraff cyffredinol, optimeiddio gwasanaethau casglu gwastraff a chefnogi cyd-gasglu gwastraff cartref ac annomestig gan Awdurdodau Lleol lle bo hynny'n briodol. Rhagwelir y bydd pob busnes arall yn gwneud arbedion.

8.3.5 Mae'r Asesiad Effaith ar Iechyd yn dod i'r casgliad, yn gyffredinol, y bydd y dull economi gylchol (sy'n sail i'r rheoliadau) yn cael effaith gadarnhaol ar benderfynyddion ehangach iechyd a llesiant y boblogaeth yn gyffredinol. Bydd hyn yn benodol trwy leihau allyriadau $CO_2$ a $NO_2$ a lliniaru effaith newid hinsawdd, sy'n anghymesur o niweidiol i rai grwpiau.

8.3.6 Mae plant a phobl ifanc yn rhanddeiliaid sydd wedi'u heffeithio'n anuniongyrchol gan y diwygiadau hyn ac a fydd yn elwa ar y manteision cadarnhaol niferus. Hoffem fanteisio ar angerdd a brwdfrydedd ein pobl

---

[9] "Cronfeydd trafnidiaeth leol, ffyrdd cydnerth a trawsnewid cerbydau allyriadau isel iawn: canllawiau i ymgeiswyr 2025 i 2026", *Llywodraeth Cymru,* 2024, Cronfeydd trafnidiaeth leol, ffyrdd cydnerth a trawsnewid cerbydau allyriadau isel iawn: canllawiau i ymgeiswyr 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU a "Bydd 'hwb' gwerth £15m yn cynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan yng Nghymru", *Llywodraeth Cymru*, 2023, Bydd 'hwb' gwerth £15m yn cynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[10] Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol, *Llywodraeth Cymru*, 2023, Tabl 22.

[11] Effaith reoleiddiol opsiynau i gynyddu ailgylchu yn y gweithle, 2025, Tabl 6

ifanc, gan ddefnyddio’r sbardunau sydd ar gael i ni fel ein rhaglenni addysg amgylcheddol ac eco-ysgolion, i sicrhau ein bod yn cynnwys plant a phobl ifanc yn gynnar yn ein syniadau ar gyfer y dyfodol ac yn dylanwadu ar newid ymddygiad cadarnhaol a meddwl creadigol ymhlith ein cenhedlaeth nesaf.

8.3.7 Rydym wedi darparu adnoddau i lywio gweithredu cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i weithredu’r newidiadau, megis astudiaethau achos arferion gorau, canllawiau, arwyddion i’w lawrlwytho, arwyddion biniau a phosteri, gweminarau ar-lein, ac adnoddau eraill. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i hyrwyddo caffael cynwysyddion gyda chynnwys wedi’i ailgylchu ar gyfer y sector cyhoeddus. Un o brif flaenoriaethau’r cytundeb hwn yw cynyddu cynnwys polythen wedi’i ailgylchu yn y cynhyrchion a gyflenwir. Bydd y dull hwn yn caniatáu i sefydliadau sy’n cymryd rhan wneud penderfyniad sy’n cyd-fynd â’u strategaeth amgylcheddol a masnachol.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a’i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

8.4.1 Bydd canlyniadau gweithredu’r rheoliadau yn cael eu monitro gyda chyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol, yn dibynnu ar natur y canlyniad ac a oes ffynhonnell ddata briodol ar gael. Bydd y system olrhain gwastraff electronig arfaethedig yn cael ei defnyddio fel prif ffynhonnell ddata i olrhain lefelau ailgylchu ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru pan fydd ar gael (tua 2027). Dim ond o fis Hydref 2026 y bydd y cam cychwynnol yn orfodol ar gyfer gweithredwyr safleoedd sy’n derbyn gwastraff.

8.4.2 Yn ogystal, mae’r ffynonellau data eraill a gaiff eu defnyddio yn y cyfnod yn cynnwys: WasteDataFlow, data asesu cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), arolygon gwastraff diwydiannol a masnachol CNC, data ‘ffurflenni safleoedd’ CNC, arolygon a dadansoddiadau Cyfansoddiad Gwastraff.

8.4.3 Bydd y canlyniadau sy’n ymwneud â gwaredu llai o wastraff bwyd i garthffosydd yn cael eu monitro yn ystod yr arolygiadau a gynhelir gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Awdurdodau Lleol, a fydd yn adrodd ar nifer y safleoedd a arolygwyd sy’n gwaredu gwastraff bwyd i garthffos.

8.4.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio’r angen am arolygon a gomisiynir penodol i fonitro ymhellach lefel y gydymffurfiaeth ac unrhyw rwystrau posibl i weithredu’r cynigion yn llwyddiannus neu ychwanegu cwestiynau penodol am y rheoliadau at yr arolygon busnes sydd eisoes wedi’u cynllunio yn y dyfodol. Ar ben hynny, bydd data ansoddol a meintiol sy’n cael ei gasglu yn ystod arolygiadau CNC ac ALl o eiddo annomestig a thrinwyr gwastraff yn darparu gwybodaeth bellach am effeithiau’r rheoliadau ar fusnesau.